

Effeithiau ar Ddatblygu Cynaliadwy – y Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Hefyd, diwygiad canlyniadol sy'n deillio o gynigion:

- ***Dyletswydd i ystyried a ddylid adolygu Cynllun Datblygu Lleol.***
Bydd yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ystyried a ddylai gynnal adolygiad o'i CDLI ar ôl i Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru gael ei gyhoeddi neu ei ddiwygio ac ar y cyfryw adegau eraill ag a bennir gan Weinidogion Cymru;

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Ôl Troed Ecolegol Cymru

Dangosyddion ategol:

Cyfanswm yr Adnoddau a Ddefnyddir

Allryiadau nwyon tŷ gwydr

Sgil-gynhyrchion gwastraff

Gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu neu'i gompostio

Symudedd

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn ddogfen gynllunio statudol sy'n nodi'r blaenoriaethau defnydd tir cenedlaethol ar gyfer datblygu tir yng Nghymru. Cynhelir arfarniad o gynaliadwyedd ar gyfer y FfDC. Bydd unrhyw gais cynllunio y penderfynir arno yn erbyn y FfDC a'i ddynodiadau defnydd tir yn ystyried effaith debygol datblygiadau ar gynaliadwyedd adnoddau. Efallai y bydd y FfDC hefyd yn nodi lleoliad mwynau, lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff cenedlaethol a pholisïau cynllunio sy'n ymwneud â datblygu cyfleusterau o'r fath. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd adnoddau eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Cynnal yr Amgylchedd:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sy'n cynyddu

Dangosyddion ategol:

Tueddiadau o ran poblogaethau adar

Effeithiau ecolegol llygredd aer

Ansawdd aer

Ansawdd afonydd

Ansawdd pridd

Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn destun Arfarniad o Gynaliadwyedd, Aseiad Amgylcheddol Strategol ac Aseiad o Reoliadau Cynefinoedd a fydd yn ystyried y dangosyddion uchod. Bydd unrhyw gais cynllunio y penderfynir arno yn erbyn dynodiadau defnydd tir y FfDC yn ystyried effeithiau tebygol datblygiadau ar gynaliadwyedd adnoddau. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd amgylcheddol eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Economi Gynaliadwy

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen

Dangosyddion ategol:

Cyflogaeth

Effeithlonrwydd adnoddau

Trydan o adnoddau adnewyddadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddogfen gynllunio statudol sy'n nodi'r blaenoriaethau defnydd tir cenedlaethol ar gyfer datblygu tir yng Nghymru. Disgwylir i hyn sicrhau manteision cadarnhaol o ran cynaliadwyedd economaidd drwy ddarparu adnodd galluogi i hyrwyddo datblygiadau cyflogaeth priodol yng Nghymru. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd economaidd eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Cymdeithas Gynaliadwy

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi incwm isel

Dangosyddion ategol:

Anghydraddoldeb iechyd

Dibyniaeth ar fudd-daliadau

Tai

Hygyrchedd

Troseddu

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddogfen gynllunio statudol sy'n nodi'r blaenoriaethau defnydd tir cenedlaethol ar gyfer datblygu tir yng Nghymru. Disgwylir i hyn sicrhau manteision cadarnhaol o ran cynaliadwyedd cymdeithasol drwy ddarparu adnodd galluogi i hyrwyddo datblygu

cyfleusterau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd cymdeithasol eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Lles Cymru

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Lles yng Nghymru

Dangosyddion ategol:

Addysg

Tlodi plant

Tlodi pensiynwyr

Cartrefi heb waith

Cymunedau gweithgar

Y Gymraeg

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Fframwaith Datblygu Cenedlaethol:

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn ddogfen gynllunio statudol sy'n nodi'r blaenoriaethau defnydd tir cenedlaethol ar gyfer datblygu tir yng Nghymru. Disgwylir i hyn sicrhau manteision cadarnhaol o ran lles Cymru drwy ddarparu adnodd galluogi i hyrwyddo cyfleoedd datblygu sy'n hyrwyddo lles pobl. Er enghraifft, hwyluso datblygiadau cyflogaeth sy'n galluogi pobl i chwarae rhan yn eu cymunedau lleol a ffynnu ynddynt. Bydd y FfDC yn destun proses arfarnu Cynaliadwyedd a fydd yn asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun; bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran lles eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Effeithiau ar Ddatblygu Cynaliadwy – y Bil Cynllunio (Cymru) – Paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) Bydd hyn yn cynnwys dynodi ardaloedd cynllunio strategol lle yr ystyrir bod angen Cynllun Datblygu Strategol a sefydlu paneli cynllunio strategol er mwyn paratoi dogfennau o'r fath.

Hefyd, diwygiad canlyniadol sy'n deillio o gynigion:

- ***Dyletswydd i ystyried a ddylid adolygu Cynllun Datblygu Lleol.*** Bydd yn caniatáu i awdurdod cynllunio lleol ystyried p'un a ddylid cynnal adolygiad o'i CDLI ar ôl i Gynllun Datblygu Strategol gael ei gyhoeddi neu ei ddiwygio ac ar y cyfryw adegau eraill ag a bennir gan Weinidogion Cymru;

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Ôl Troed Ecolegol Cymru

Dangosyddion ategol:

Cyfanswm yr Adnoddau a Ddefnyddir

Allryiadau nwyon tŷ gwydr

Sgil-gynhyrchion gwastraff

Gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu neu'i gompostio

Symudedd

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Strategol:

Bydd y cynigion ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol yn gymwys i'r ardaloedd hynny yng Nghymru lle ceir materion o bwys strategol yr ymdrinnid â hwy yn fwy effeithiol ac effeithlon drwy Gynllun Datblygu Strategol. Ar gyfer ardaloedd o'r fath, ymdrinnir ag elfennau strategol Cynlluniau Datblygu Lleol, megis tai, cyflogaeth, trafnidiaeth, darpariaeth sipsiwn a theithwyr a mwynau a gwastraff, mewn Cynllun Datblygu Strategol. Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn cwmpasu ardal mwy nag un awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru o leiaf. Mae'n rhaid llunio Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd ar gyfer unrhyw CDSau. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt yn erbyn CDS yn ystyried effaith debygol datblygiadau ar gynaliadwyedd adnoddau. Efallai y bydd CDSau hefyd yn nodi safleoedd mwynau o bwys strategol, lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau gwastraff strategol a pholisïau cynllunio sy'n ymwneud â datblygu cyfleusterau o'r fath. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd adnoddau eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Cynnal yr Amgylchedd:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sy'n cynyddu

Dangosyddion ategol:
Tueddiadau o ran poblogaethau adar
Effeithiau ecolegol llygredd aer
Ansawdd aer
Ansawdd afonydd
Ansawdd pridd
Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Strategol:

Cynhelir Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad o Reoliadau Cynefinoedd ar gyfer CDSau. Bydd unrhyw geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt yn erbyn CDS yn ystyried effaith debygol datblygiadau ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd amgylcheddol eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Economi Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen

Dangosyddion ategol:
Cyflogaeth
Effeithlonrwydd adnoddau
Trydan o adnoddau adnewyddadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Strategol:

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn darparu dull effeithiol o ymdrin â materion cynllunio trawsffiniol, gan gynnwys rhoi sicrwydd o ran darparu cyflogaeth. Disgwylir i hyn sicrhau manteision cadarnhaol o ran cynaliadwyedd economaidd drwy ddarparu adnodd galluogi i hyrwyddo datblygiadau cyflogaeth priodol yng Nghymru. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd economaidd eu hystyried wrth adolygu CDLlau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLlau).

Cymdeithas Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi incwm isel

Dangosyddion ategol:
Anghydraddoldeb iechyd
Dibyniaeth ar fudd-daliadau
Tai
Hygyrchedd

Troseddu

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Strategol:

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn darparu dull effeithiol o ymdrin â'r materion hynny sydd o arwyddocâd y tu hwnt i'r ardal leol; er enghraifft rhoi sicrwydd ac eglurder o ran darpariaeth tai a chyflogaeth strategol (dim ond i ardaloedd lle y tybir bod eu hangen yng Nghymru y bydd CDSau yn gymwys). Disgwylir i CDSau sicrhau manteision cadarnhaol o ran cynaliadwyedd cymdeithasol drwy ddarparu adnodd galluogi ar lefel strategol i hyrwyddo datblygu cyfleusterau cynaliadwy sy'n diwallu anghenion cymunedau lleol. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran cynaliadwyedd cymdeithasol eu hystyried wrth adolygu CDLLau ar ôl i'r FfDC gael ei ddiweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLLau).

Lles Cymru:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Lles yng Nghymru

Dangosyddion ategol:

Addysg

Tlodi plant

Tlodi pensiynwyr

Cartrefi heb waith

Cymunedau gweithgar

Y Gymraeg

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Strategol:

Bydd Cynlluniau Datblygu Strategol yn darparu dull effeithiol o ymdrin â'r materion hynny sydd o arwyddocâd y tu hwnt i'r ardal leol; er enghraifft rhoi sicrwydd ac eglurder o ran darpariaeth tai a chyflogaeth strategol ar gyfer ardaloedd awdurdodau lleol (dim ond i ardaloedd lle y tybir bod eu hangen yng Nghymru y bydd CDSau yn gymwys). Disgwylir i hyn sicrhau manteision cadarnhaol o ran lles Cymru drwy ddarparu adnodd galluogi i hyrwyddo cyfleoedd datblygu yn lleol sy'n hyrwyddo lles pobl. Er enghraifft, hwyluso datblygiadau cyflogaeth sy'n galluogi pobl i chwarae rhan yn eu cymunedau lleol a ffynnu ynddynt. Bydd CDSau yn destun proses arfarnu Cynaliadwyedd a fydd yn asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun; bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r effeithiau tebygol ar y defnydd o'r Gymraeg. Yn yr un modd, caiff ystyriaethau o ran lles eu hystyried wrth adolygu CDLLau ar ôl i'r CDSau gael eu diweddarau (gwneir hyn fel rhan o'r broses arfarnu cynaliadwyedd a gynhelir wrth baratoi ac adolygu CDLLau).

Effeithiau ar Ddatblygu Cynaliadwy – y Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Ôl Troed Ecolegol Cymru

Dangosyddion ategol:

Cyfanswm yr Adnoddau a Ddefnyddir

Allryiadau nwyon tŷ gwydr

Sgil-gynhyrchion gwastraff

Gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu neu'i gompostio

Symudedd

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol:

Mae cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru yn cynnwys cynigion i wella proses y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI). Mae'r newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth sylfaenol yn newidiadau i faterion sy'n ymwneud â'r broses yn gyffredinol y bwriedir iddynt sicrhau system well a mwy effeithlon o lunio cynlluniau; mae'r materion hyn fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.** Bydd yn caniatáu i ddyddiad terfynu gael ei bennu ar gyfer CDLlau sy'n nodi cyfnod y cynllun, ac ar ôl y dyddiad hwnnw ni fyddant yn gynllun datblygu mwyach ar gyfer eu hardal;
- **Tynnu CDLI yn ôl.** Bydd yn caniatáu i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu ac ystyried a ddylent ddefnyddio eu pwerau ymyrryd cyn y gellir tynnu CDLI yn ôl; a
- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.** Bydd y darpariaethau yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan nodi eu rhesymau dros wneud hynny (h.y. yn seiliedig ar dystiolaeth).
- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.** Byddai'r gofyniad hwn yn berthnasol pan fydd awdurdodau cynllunio lleol yn paratoi neu'n adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol. Bydd yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru, wrth adolygu materion, gynnwys i ba raddau y defnyddir y Gymraeg yn eu hardal, os disgwylir i hyn effeithio ar ddatblygiad eu hardal neu'r broses o gynllunio ei datblygiad.
- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.** Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod yn rhaid i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y cynllun ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod wrth arfarnu cynaliadwyedd eu Cynllun Datblygu Lleol.

Felly, ystyrir bod y darpariaethau uchod yn ddiwygiadau technegol a fydd yn cyflawni newidiadau cadarnhaol er mwyn sicrhau bod gan awdurdodau

cynllunio lleol CDLlau cyfredol ar waith a diwygiadau a fydd yn sicrhau y caiff y Gymraeg ei hystyried fel rhan o'r broses o lunio cynlluniau datblygu lleol.

Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau, yn arbennig wrth baratoi Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er gwaethaf hyn, os cânt eu gweithredu'n unigol mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn effeithio ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy' fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.**

Bwriedir i'r ddarpariaeth sy'n pennu dyddiad terfynu ac yn nodi na fydd gan awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol gweithredol mwyach ar ôl y dyddiad hwnnw sicrhau bod ACLlau yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson. Efallai y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy' yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Tynnu CDLI yn ôl.**

Byddai'r ddarpariaeth hon yn darparu dull i Weinidogion Cymru sicrhau na fydd ACLlau yn tynnu cynlluniau 'cadarn' yn ôl. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau ymyrryd, os bydd y sail dystiolaeth ar gael, er mwyn sicrhau na chaiff cynllun 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Dylai hyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (ac yn arbennig effeithiau ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy') yn cael eu defnyddio'n amlach gan awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o'r broses o lunio cynllun.

- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi CDLlau ar y Cyd lle mae angen i faterion megis cyflenwad tir ar gyfer tai gael eu hystyried ar raddfa fwy na graddfa leol. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn bosibl i effeithiau o'r fath gael eu hystyried yn strategol, lle y dangosir bod angen gwneud hynny, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLI ar y Cyd.

- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.** Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd drwy broses y CDLlau. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a

gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid adolygu effeithiau o'r fath yn rheolaidd mewn CDLlau ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.** Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn asesu effeithiau tebygol Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod, fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid ystyried effeithiau o'r fath ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

Cynnal yr Amgylchedd:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sy'n cynyddu

Dangosyddion ategol:

Tueddiadau o ran poblogaethau adar

Effeithiau ecolegol llygredd aer

Ansawdd aer

Ansawdd afonydd

Ansawdd pridd

Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol:

Caiff effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau, yn arbennig wrth baratoi Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er gwaethaf hyn, os cânt eu gweithredu'n unigol mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn effeithio ar 'gynnal yr amgylchedd' fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.** Bwriedir i'r ddarpariaeth sy'n pennu dyddiad terfynu ac yn nodi na fydd gan awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol gweithredol mwyach ar ôl y dyddiad hwnnw sicrhau bod ACLlau yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson. Efallai y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar 'gynnal yr amgylchedd' yn cael eu defnyddio'n

amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Tynnu CDLI yn ôl.**

Bydd y ddarpariaeth hon yn darparu dull i Weinidogion Cymru sicrhau na fydd ACLlau yn tynnu cynlluniau 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau ymyrryd, os bydd y sail dystiolaeth ar gael, er mwyn sicrhau na chaiff cynllun 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Dylai hyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (ac yn arbennig effeithiau ar 'ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy') yn cael eu defnyddio'n amlach gan awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o'r broses o lunio cynllun.

- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi CDLlau ar y Cyd lle mae angen i faterion megis cyflenwad tir ar gyfer tai gael eu hystyried ar raddfa fwy na graddfa leol. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gynnal yr amgylchedd') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn bosibl i effeithiau o'r fath gael eu hystyried yn strategol, lle y dangosir bod angen gwneud hynny, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLI ar y Cyd.

- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.**

Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd drwy broses y CDLlau. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gynnal yr amgylchedd') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid adolygu effeithiau o'r fath yn rheolaidd mewn CDLlau ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.**

Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn asesu effeithiau tebygol Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod, fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gynnal yr amgylchedd') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid ystyried effeithiau o'r fath ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau, lle yr

ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

Economi Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen

Dangosyddion ategol:

Cyflogaeth

Effeithlonrwydd adnoddau

Trydan o adnoddau adnewyddadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol:

Caiff effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau, yn arbennig wrth baratoi Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er gwaethaf hyn, os cânt eu gweithredu'n unigol mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn effeithio ar 'economi gynaliadwy' fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.**

Bwriedir i'r ddarpariaeth sy'n pennu dyddiad terfynu ac yn nodi na fydd gan awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol gweithredol mwyach ar ôl y dyddiad hwnnw sicrhau bod ACLlau yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson. Efallai y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar 'economi gynaliadwy' yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Tynnu CDLI yn ôl.**

Bydd y ddarpariaeth hon yn darparu dull i Weinidogion Cymru sicrhau na fydd ACLlau yn tynnu cynlluniau 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau ymyrryd, os bydd y sail dystiolaeth ar gael, er mwyn sicrhau na chaiff cynllun 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Dylai hyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (ac yn arbennig effeithiau ar 'economi gynaliadwy') yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi CDLlau ar y Cyd lle mae angen i faterion megis cyflenwad tir ar gyfer tai gael eu hystyried ar raddfa fwy na graddfa leol. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'economi gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn bosibl i effeithiau o'r fath gael eu

hystyried yn strategol, lle y dangosir bod angen gwneud hynny, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLI ar y Cyd.

- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.** Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd drwy broses y CDLlau. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'economi gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid adolygu effeithiau o'r fath yn rheolaidd mewn CDLlau ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.
- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.** Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn asesu effeithiau tebygol Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod, fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'economi gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid ystyried effeithiau o'r fath ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

Cymdeithas Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi incwm isel

Dangosyddion ategol:

Anghydraddoldeb iechyd

Dibyniaeth ar fudd-daliadau

Tai

Hygyrchedd

Troseddu

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol:

Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau, yn arbennig wrth baratoi Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol

Strategol. Er gwaethaf hyn, os cânt eu gweithredu'n unigol mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn effeithio ar 'gymdeithas gynaliadwy' fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.**

Bwriedir i'r ddarpariaeth sy'n pennu dyddiad terfynu ac yn nodi na fydd gan awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol gweithredol mwyach ar ôl y dyddiad hwnnw sicrhau bod ACLlau yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson. Efallai y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar 'gymdeithas gynaliadwy' yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Tynnu CDLI yn ôl.**

Bydd y ddarpariaeth hon yn darparu dull i Weinidogion Cymru sicrhau na fydd ACLlau yn tynnu cynlluniau 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau ymyrryd, os bydd y sail dystiolaeth ar gael, er mwyn sicrhau na chaiff cynllun 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Dylai hyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (ac yn arbennig effeithiau ar 'gymdeithas gynaliadwy') yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.**

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi CDLlau ar y Cyd lle mae angen i faterion megis cyflenwad tir ar gyfer tai gael eu hystyried ar raddfa fwy na graddfa leol. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gymdeithas gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn bosibl i effeithiau o'r fath gael eu hystyried yn strategol, lle y dangosir bod angen gwneud hynny, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLI ar y Cyd.

- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.** Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd drwy broses y CDLlau. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gymdeithas gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid adolygu effeithiau o'r fath yn rheolaidd mewn CDLlau ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.** Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn asesu effeithiau tebygol Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod, fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'gymdeithas gynaliadwy') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid ystyried effeithiau o'r fath ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

Lles Cymru:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Lles yng Nghymru

Dangosyddion ategol:

Addysg

Tlodi plant

Tlodi pensiynwyr

Cartrefi heb waith

Cymunedau gweithgar

Y Gymraeg

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Cynlluniau Datblygu Lleol:

Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi eu sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau, yn arbennig wrth baratoi Adroddiad ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd y CDLI sy'n cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol. Er gwaethaf hyn, os cânt eu gweithredu'n unigol mae'n bosibl y bydd y darpariaethau yn effeithio ar 'les Cymru' fel a ganlyn:

- **Y cyfnod y mae'r CDLI yn weithredol.**
Bwriedir i'r ddarpariaeth sy'n pennu dyddiad terfynu ac yn nodi na fydd gan awdurdod cynllunio lleol Gynllun Datblygu Lleol gweithredol mwyach ar ôl y dyddiad hwnnw sicrhau bod ACLlau yn diweddarau eu Cynlluniau Datblygu Lleol yn gyson. Efallai y bydd hyn yn helpu i sicrhau bod effeithiau ar 'les Cymru' yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.
- **Tynnu CDLI yn ôl.**
Bydd y ddarpariaeth hon yn darparu dull i Weinidogion Cymru sicrhau na fydd ACLlau yn tynnu cynlluniau 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddefnyddio eu pwerau ymyrryd, os bydd y sail dystiolaeth ar gael, er mwyn sicrhau na chaiff cynllun 'cadarn' ei dynnu'n ôl. Dylai hyn sicrhau bod effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy

(ac yn arbennig effeithiau ar 'les Cymru') yn cael eu defnyddio'n amlach fel rhan o'r broses o lunio cynllun a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol.

- **Pŵer Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo paratoi CDLlau ar y Cyd.** Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo dau awdurdod cynllunio lleol neu fwy i baratoi CDLlau ar y Cyd lle mae angen i faterion megis cyflenwad tir ar gyfer tai gael eu hystyried ar raddfa fwy na graddfa leol. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'les Cymru') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon ei gwneud yn bosibl i effeithiau o'r fath gael eu hystyried yn strategol, lle y dangosir bod angen gwneud hynny, drwy ganiatáu i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ACLlau i baratoi CDLl ar y Cyd.
- **Gofyniad i adolygu materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn rheolaidd fel rhan o'r broses cynlluniau datblygu.** Nod y ddarpariaeth hon yw sicrhau y caiff materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg eu hadolygu'n rheolaidd yn lleol wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd drwy broses y CDLlau. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'les Cymru') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid adolygu effeithiau o'r fath yn rheolaidd mewn CDLlau ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.
- **Gofyniad i asesu effeithiau Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Gymraeg yn ystod y broses o arfarnu cynaliadwyedd.** Bydd y ddarpariaeth hon yn sicrhau bod awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn asesu effeithiau tebygol Cynlluniau Datblygu Lleol ar y defnydd o'r Gymraeg yn ardal yr awdurdod, fel rhan o'r broses o arfarnu cynaliadwyedd. Mae effeithiau ar ddatblygu cynaliadwy (gan gynnwys y rhai ar 'les Cymru') eisoes yn cael eu hasesu yn ystod y broses fanwl a gynhelir gan awdurdodau cynllunio lleol wrth baratoi'r sail dystiolaeth ar gyfer eu CDLlau. Fodd bynnag, gallai'r ddarpariaeth hon olygu y gellid ystyried effeithiau o'r fath ar sail ystyriaethau sy'n ymwneud â'r Gymraeg wrth baratoi CDLlau, lle yr ystyrir bod angen ystyried yr iaith wrth gynllunio datblygiadau ar gyfer dyfodol ardal.

Effeithiau o ran Datblygu Cynaliadwy – y Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Ôl Troed Ecolegol Cymru

Dangosyddion ategol:

Cyfanswm yr Adnoddau a Ddefnyddir

Allryiadau nwyon tŷ gwydr

Sgil-gynhyrchion gwastraff

Gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu neu'i gompostio

Symudedd

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio:

Bydd y cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru yn arwain at newidiadau i'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â sefydlu Byrddau Cydgynllunio. Mae'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n ymwneud â Byrddau Cydgynllunio yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru sefydlu bwrdd cydgynllunio fel yr awdurdod cynllunio lleol (ACLI) ar gyfer dwy ardal neu fwy, y mae pob un ohonynt yn sir neu'n fwrdeistref sirol gyfan neu'n rhan ohoni yng Nghymru. Bydd y cynigion yn diweddarau'r ddeddfwriaeth bresennol, gan alluogi Bwrdd Cydgynllunio i gyflawni holl swyddogaethau ACLI modern (ar hyn o bryd, ni allai Bwrdd o'r fath wneud hyn). Felly, bydd y cynigion yn darparu ar gyfer uno swyddogaethau ACLIau yn y dyfodol, os oes tystiolaeth bod angen gwneud hynny. Nid yw'r darpariaethau hyn ar gyfer Byrddau Cydgynllunio yn berthnasol i ardaloedd Parciau Cenedlaethol yng Nghymru.

Cynhwysir darpariaethau ar wahân yn y Bil sy'n ymwneud ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol a Byrddau Cydgynllunio. Mae'r darpariaethau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ehangu cwrpas pwerau Byrddau Cydgynllunio er mwyn iddynt allu cyflawni swyddogaethau rheoli datblygu ar gyfer ardaloedd Parciau Cenedlaethol. Dim ond os caiff y darpariaethau eu hehangu gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau i'w cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol y byddai hyn yn berthnasol, ac ni fyddai'n berthnasol i swyddogaethau llunio cynlluniau, y bydd Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn parhau i ymgymryd â hwy.

Bydd y systemau yn helpu i sicrhau bod yr adnoddau cywir ar gael i greu cyrff cyflawni cydnerth a all fanteisio ar ystod lawn o sgiliau technegol a gwleidyddol. Er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddangosydd 'defnyddio adnoddau'n gynaliadwy', gallai'r darpariaethau wella prosesau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu dros ardal ehangach, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a chyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.

Cynnal yr Amgylchedd:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sy'n cynyddu

Dangosyddion ategol:
Tueddiadau o ran poblogaethau adar
Effeithiau ecolegol llygredd aer
Ansawdd aer
Ansawdd afonydd
Ansawdd pridd
Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio:

Bydd caniatáu i Fwrdd Cydgynllunio gyflawni holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol modern yn darparu'r adnoddau i greu cyrff cyflawni cydnerth a all fanteisio ar ystod lawn o sgiliau technegol a gwleidyddol. Er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddangosydd 'cynnal yr amgylchedd', gallai'r darpariaethau wella prosesau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu dros ardal ehangach, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a chyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.

Economi Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Gwerth Ychwanegol Gros (GYG) a GYG y pen

Dangosyddion ategol:
Cyflogaeth
Effeithlonrwydd adnoddau
Trydan o adnoddau adnewyddadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio:

Bydd caniatáu i Fwrdd Cydgynllunio gyflawni holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol modern yn darparu'r adnoddau i greu cyrff cyflawni cydnerth a all fanteisio ar ystod lawn o sgiliau technegol a gwleidyddol. Er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddangosydd 'economi gynaliadwy', gallai'r darpariaethau wella prosesau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu dros ardal ehangach, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a chyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.

Cymdeithas Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y boblogaeth sy'n byw mewn cartrefi incwm isel

Dangosyddion ategol:
Anghydraddoldeb iechyd
Dibyniaeth ar fudd-daliadau
Tai
Hygyrchedd
Troseddu

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio:

Bydd caniatáu i Fwrdd Cydgynllunio gyflawni holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol modern yn darparu'r adnoddau i greu cyrff cyflawni cydnerth a all fanteisio ar ystod lawn o sgiliau technegol a gwleidyddol. Er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddangosydd 'cymdeithas gynaliadwy', gallai'r darpariaethau wella prosesau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu dros ardal ehangach, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a chyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.

Lles Cymru:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Lles yng Nghymru

Dangosyddion ategol:

Addysg

Tlodi plant

Tlodi pensïynwyr

Cartrefi heb waith

Cymunedau gweithgar

Y Gymraeg

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Byrddau Cydgynllunio:

Bydd caniatáu i Fwrdd Cydgynllunio gyflawni holl swyddogaethau awdurdodau cynllunio lleol modern yn darparu'r adnoddau i greu cyrff cyflawni cydnerth a all fanteisio ar ystod lawn o sgiliau technegol a gwleidyddol. Er nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar ddangosydd 'lles Cymru', gallai'r darpariaethau wella prosesau cynllunio. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cyfleoedd a chostau sy'n gysylltiedig â datblygu dros ardal ehangach, a fydd yn ei gwneud yn bosibl i nodi a chyflawni canlyniadau mwy cynaliadwy.

Effeithiau ar Ddatblygu Cynaliadwy – y Bil Cynllunio (Cymru) – Ymgynghori cyn Ymgeisio

Defnyddio Adnoddau'n Gynaliadwy:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: Ôl Troed Ecolegol Cymru

Dangosyddion ategol:

Cyfanswm yr Adnoddau a Ddefnyddir

Alloriadau nwyon tŷ gwydr

Sgîl-gynhyrchion gwastraff

Gwastraff cartrefi a gaiff ei ailgylchu neu'i gompostio

Symudedd

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Ymgynghori cyn Ymgeisio:

Dylai prosesau ceisiadau cynllunio o ran ystyried cynigion datblygu ystyried, ar hyn o bryd, effaith debygol gwaith datblygu ar gynaliadwyedd adnoddau. Bydd y cynigion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr ymgynghori â chymunedau lleol ynghylch mathau penodol o gynigion datblygu cyn cyflwyno cais cynllunio yn ffurfiol. Dylai hyn arwain at fanteision cadarnhaol o ran sicrhau y caiff cymunedau lleol gyfle i ymgysylltu ynghylch cynigion datblygu a chodi unrhyw bryderon ynghylch effeithiau gwaith datblygu ar adnoddau yn gynnar.

Cynnal yr Amgylchedd:

Prif ddangosydd datblygu cynaliadwy: % y rhywogaethau a'r cynefinoedd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a gofnodir fel rhai sefydlog neu sy'n cynyddu

Dangosyddion ategol:

Tueddiadau o ran poblogaethau adar

Effeithiau ecolegol llygredd aer

Ansawdd aer

Ansawdd afonydd

Ansawdd pridd

Rheoli adnoddau dŵr yn gynaliadwy

Effeithiau'r Bil Cynllunio (Cymru) – Ymgynghori cyn Ymgeisio:

Dylai prosesau ceisiadau cynllunio o ran ystyried cynigion datblygu ystyried, ar hyn o bryd, effaith debygol gwaith datblygu ar gynaliadwyedd amgylcheddol. Bydd y cynigion ar gyfer ymgynghori cyn ymgeisio yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr hysbysu cymunedau lleol am fathau penodol o gynigion datblygu cyn cyflwyno cais cynllunio yn ffurfiol. Dylai hyn arwain at fanteision cadarnhaol o ran sicrhau y caiff cymunedau lleol gyfle i ymgysylltu ynghylch cynigion datblygu a chodi unrhyw bryderon ynghylch effeithiau amgylcheddol gwaith datblygu yn gynnar. Dylai hyn arwain at gynlluniau datblygu mwy derbyniol sy'n sicrhau canlyniadau gwell i'r gymuned.

Economi Gynaliadwy:

